



Local flood risk research roadmap

Crynodeb Prosiect SC130005/S

Mae'r map ffyrdd perygl llifogydd lleol, a baratowyd gan Halcrow i Asiantaeth yr Amgylchedd, yn nodi rhaglen o brosiectau ymchwil i ymdrin â gwyddoniaeth, gwybodaeth, rhannu arferion gorau a meithrin gallu.

Mae'r map ffyrdd yn adeiladu ar fframwaith Draenio Trefol Integredig 2009 a chafodd ei ddatblygu gan gyfeirio at y map ffyrdd Systemau Draenio Cynaliadwy, y map ffyrdd Byw gyda Newid Amgylchedd, a'r fframwaith Gweithio gyda Phrosesau Naturiol, er mwyn sicrhau y bydd prosiectau ymchwil yn ategu yn hytrach na dyblygu ymdrechion.

Datblygwyd y map ffyrdd gyda chydweithrediad y gymuned rheoli perygl llifogydd leol ac roedd yn cynnwys llawer o sefydliadau ac unigolion o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae trafodaethau, dau weithdy ac arolwg ar-lein wedi helpu i ddiffinio anghenion y gymuned rheoli perygl llifogydd leol ac wedi cynhyrchu syniadau ar gyfer prosiectau ymchwil posibl.

Cafodd mwy na 300 o syniadau a awgrymwyd ar gyfer ymchwil eu hidlo er mwyn osgoi dyblygu a'u blaenoriaethu er mwyn canolbwyntio ar y rhai pwysicaf a mwyaf taer dros y pum mlynedd nesaf. Hefyd cafodd y prosiectau eu grwpio ynghyd mewn meysydd pwnc ymchwil.

Ar ôl y broses hon, nodwyd mwy na 30 o brosiectau ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr (tymor byr) a 15 cwestiwn ymchwil strategol (tymor canolig i dymor hir).

Mae adroddiad y map ffyrdd yn ystyried y dirwedd ymchwil ac yn rhoi manylion cryno am y mapiau ffyrdd a fframweithiau eraill a grybwyllir uchod. Mae yna adrannau ar ddiffinio canlyniadau ymchwil a'r dulliau a ddefnyddir i nodi a blaenoriaethu anghenion ymchwil. Caiff y rhestr derfynol o brosiectau ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr ei darparu fel ffigwr ac fel tabl. Mae'r rhain yn nodi pryd, dros y pum mlynedd nesaf, y câi'r prosiect ei gyflawni'n ddelfrydol a pha mor hir y disgwyliad iddi gymryd i wneud y gwaith. Ategir y wybodaeth hon gan fwy o fanylion am bob prosiect, gan gynnwys costau a chydweithredwyr, diben y prosiect, pam mae angen yr ymchwil a'r gwahaniaeth y bydd yn ei wneud.

Mae angen inni barhau i gydweithredu'n agos â'r gymuned ymchwil i berygl llifogydd leol. Felly mae'r adroddiad yn cynnwys cynllun ymgysylltu sy'n nodi camau ar gyfer sut y dylai'r cydweithredu hwn weithio o fewn oes pum mlynedd y map ffyrdd.

Mae'r crynodeb hwn yn ymdrin â gwybodaeth o'r prosiect canlynol:

Adroddiad: SC130005/R

Teitl: Local flood risk research roadmap

Mawrth 2015

Rheolwr y prosiect: Adam Baylis, Y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth

Rheolwr y thema: Adam Baylis, Y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth

Contractwr Ymchwil: Halcrow (A CH2M HILL Company), Burderop Park, Swindon, SN4 0QD

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o Gyd-raglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk.

E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd.